# Gweithgaredd Dysgu

Mae'r adnodd hwn yn cynnig gweithgareddau dysgu ar gyfer eich disgyblion gan ddefnyddio Casgliad y Werin Cymru. Mae'n rhan o gyfres o dri adnodd dysgu sy'n ymwneud ag Abertawe yn y 1850au.

Abertawe Oes Fictoria - Cyfrif Pennau
Abertawe Oes Fictoria - Pobl a'u Pethau
**Abertawe Oes Fictoria - Storïau Pobl**

## Cam Cynnydd 3

## Teitl Abertawe Oes Fictoria - Storïau Pobl

## Awdur Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Amgueddfa Cymru

## Cyflwyniad

**Abertawe yn y 1850au – Storïau Pobl**

Sut y gallwn ni ddysgu am y bobl gyffredin oedd yn byw ac yn gweithio yn Abertawe yn y 1850au?

Mae'r Gweithgaredd Dysgu hwn yn edrych ar rai o'r ffynonellau sy'n rhoi cofnod bychan o ddigwyddiadau ym mywydau pobl na fyddem yn gwybod dim amdanynt fel arall ac mae'n annog y disgyblion i ddehongli'r ffynonellau ac i greu eu cymeriadau eu hunain.

Beth oedd Walter Butt yn ei wneud ag afal pîn? Pam gafodd Mrs Phillips ei beirniadu am werthu ffrwythau ar ddydd Sul?

**Amcanion dysgu**

Bydd y disgyblion yn gallu:
- Gweld ym mha ffyrdd y caiff y gorffennol ei gyfleu/ddehongli
- Deall pam yr oedd pobl yn gwneud pethau, beth arweiniodd at ddigwyddiadau penodol a beth oedd canlyniadau'r digwyddiadau hynny
- Gwahaniaethu rhwng 'ffaith' a 'barn' gan roi rhesymau wedi'u seilio ar dystiolaeth/gwybodaeth

## Tasg 1. Dyma Walter Butt – "*juvenile freak*"!

Mae'n siŵr na fyddem ni'n gwybod dim am Walter Butt, 14, pe na bai wedi'i gyhuddo o ddwyn afal pîn o siop ffrwythau ar Stryd y Gwynt ar ddydd Sul ym mis Mawrth 1851.

Mae enw Walter i'w weld yn Adroddiadau Llys Abertawe yn *The Cambrian* 28 Mawrth 1851 – yn yr un wythnos ag roedd ffurflenni'r cyfrifiad yn cael eu dosbarthu i gartrefi yn Abertawe.

Darllenwch yr erthygl, "*Juvenile Freaks*", o *The Cambrian.*



dismissed.

JUVENILE FREAKS.—*Walter Butt*, a lad, son of Walter Butt, cordwainer, was charged with having stolen, on Sunday last, a pine-apple, from the shop of Mrs. Phelps. The prisoner said he was tipsy—he could not tell whether he was guilty or not.

Mrs. Philps was then examined, who said: My husband keeps a fruit shop in Wind-street, in this town. On Sunday last, a lot of boys, accompanied by the prisoner, came into the shop and bought some fruit. Immediately after they left the shop, I missed a pine-apple. It was placed in the window, and I saw it there just before the boys came in. I went outside the door, and I saw some of the boys there, but the prisoner was gone. I ordered my servant to take one of the boys. She did so. In about five minutes, Thomas Vickeridge brought back the pine-apple, now produced. It is worth 5s. I saw the prisoner Butt in the shop with the other boys.

Thomas Vickeridge, one of the prisoner's companions, on being sworn, said: About five o'clock on Sunday evening I met the prisoner in Salubrious-place—the Fisher-street end. He took a pine-apple out of his pocket, and said he would give me a penny if I would take it back to the shop a little above Salubrious-place. I took the apple back, and delivered it to Mrs. Phelps, when she detained me, and gave me into custody.

Mrs. Phelps re-called by the Mayor: I lost half a hundred of cigars from the shop last Sunday week. I am in the habit of selling fruit on a Sunday.

Vickeridge re-examined: Butt did not pay me the penny, but he promised to do so.

The Mayor said that it was a lamentable thing to see a boy of only 13 years of age commit such an offence, and bring disgrace on his family. It appeared to him, however, that Mrs. Phelps had no right to keep her shop open on a Sunday, as a temptation for boys. Under such circumstances, the Bench were disposed to be lenient, and their decision was, that they would not punish Butt this time, but would require that the father should enter into sureties that the son should not offend again.—The father was then bound over in the sum of 10l., and the prisoner was discharged with a severe reprimand.

*Patrick Sheen*, a ruffianly Irishman, was charged with drunkenness, and ill-using P.C. George Jones. Strange to say, although

*The Cambrian – 'Juvenile freaks' 1851*

Gwnewch restr o'r holl FFEITHIAU am achos Walter. Pam nad yw Walter yn gallu dweud a oedd wedi dwyn yr afal pîn ai peidio? Mae sawl peth anghywir am yr adroddiad o'r llys. Allwch chi ddod o hyd i o leiaf un?

Ewch i'r ddogfen Excel sy'n cyfeirio at Stryd y Gwynt ym 1851. Chwiliwch am Phelps ymhlith y cyfenwau. Os na allwch ddod o hyd iddo, allwch chi weld cyfenw tebyg? Neu chwiliwch am Fruiterer ymhlith y swyddi (*Occupations*). Beth welwch chi?

Ydi gŵr Mrs 'Phelps' yn cadw siop ffrwythau neu a oes ganddo swydd arall? Beth sydd ganddo'n gyffredin â thad Walter? Beth mae '*cordwainer'* yn ei wneud?

Pam y mae'r Maer yn beirniadu Mrs 'Phelps', yr un sydd wedi dioddef trosedd yn ei herbyn? Ydych chi'n meddwl bod hyn yn deg?

Beth oedd dyfarniad y llys? Ydych chi'n meddwl bod Walter yn lwcus?

Nawr, edrychwch ar gofnod Cyfrifiad 1851 ar gyfer Walter Butt a'i deulu. Pe bai'r llys wedi bod yn fwy llym ar Walter, efallai nad yng nghofnod Cyfrifiad ei deulu y byddai ond yng nghofnod Carchar Abertawe!

Pan edrychwch ar enwau ei deulu, efallai y gwelwch gamgymeriad arall yn yr adroddiad o'r llys!

[Cyfrifiad Stryd y Gwynt](#)
[The Cambrian – 'Juvenile Freaks' 1851](#)

## Tasg 2. Dwyn afal pîn!



dismissed.

JUVENILE FREAKS.—Walter Butt, a lad, son of Walter Butt, cordwainer, was charged with having stolen, on Sunday last, a pine-apple, from the shop of Mrs. Phelps. The prisoner said he was tipsy—he could not tell whether he was guilty or not.

Mrs. Phelps was then examined, who said: My husband keeps a fruit shop in Wind-street, in this town. On Sunday last, a lot of boys, accompanied by the prisoner, came into the shop and bought some fruit. Immediately after they left the shop, I missed a pine-apple. It was placed in the window, and I saw it there just before the boys came in. I went outside the door, and I saw some of the boys there, but the prisoner was gone. I ordered my servant to take one of the boys. She did so. In about five minutes, Thomas Vickeridge brought back the pine-apple, now produced. It is worth 5s. I saw the prisoner Butt in the shop with the other boys.

Thomas Vickeridge, one of the prisoner's companions, on being sworn, said: About five o'clock on Sunday evening I met the prisoner in Salubrious-place—the Fisher-street end. He took a pine-apple out of his pocket, and said he would give me a penny if I would take it back to the shop a little above Salubrious-place. I took the apple back, and delivered it to Mrs. Phelps, when she detained me, and gave me into custody.

Mrs. Phelps re-called by the Mayor: I lost half a hundred of cigars from the shop last Sunday week. I am in the habit of selling fruit on a Sunday.

Vickeridge re-examined: Butt did not pay me the penny, but he promised to do so.

The Mayor said that it was a lamentable thing to see a boy of only 13 years of age commit such an offence, and bring disgrace on his family. It appeared to him, however, that Mrs. Phelps had no right to keep her shop open on a Sunday, as a temptation for boys. Under such circumstances, the Bench were disposed to be lenient, and their decision was, that they would not punish Butt this time, but would require that the father should enter into sureties that the son should not offend again.—The father was then bound over in the sum of 10l., and the prisoner was discharged with a severe reprimand.

*Patrick Sheen*, a [illegible] Irishman, was charged with drunkenness, and ill-using P.C. George Jones. [illegible]

*The Cambrian – 'Juvenile freaks' 1851*

Pam fyddai Walter yn dwyn afal pîn? Meddyliwch am yr holl resymau pam y byddai'n gwneud hynny. Ymunwch fel dosbarth i wneud rhestr!

Ble'r oedd yr afal pîn yn y siop? Beth mae hynny'n awgrymu amdano?

Ble guddiodd Walter yr afal pîn? Beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am yr afal pîn?

Faint oedd gwerth yr afal pîn yn ôl Mrs Phelps? Faint mae afalau pîn yn eu costio heddiw? Ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/currency-converter (Saesneg yn unig) a rhoi cost yr afal pîn yn 1851 ac fe welwch faint yw gwerth y swm hwnnw yn arian heddiw. Beth mae gwerth yr afal pîn ym 1851 yn ei ddweud wrthym am y bobl fyddai'n gallu ei fforddio?

Defnyddiwch y rhyngrwyd i ddysgu am afalau pîn. Dyma ddwy wefan a all helpu:

Edrychwch ar y llun o'r afal pîn enfawr a osodwyd ar bafiliwn gardd yn Stad Dunmore yn yr Alban ym 1777
http://www.falkirklocalhistorysociety.co.uk/gallery/index.php?txtMode=view&cid=6&pid=116

Mae adolygiad o'r llyfr *The Pineapple: King of Fruits* a gyhoeddwyd yn 2006 yn disgrifio'r yr afal pîn fel bag llaw Prada y cyfnod hwnnw
https://www.penguin.co.uk/books/1036388/the-pineapple/

Lle maen nhw'n tyfu? Pam gawson nhw'r enw 'afal pîn'? Pryd ddaethon nhw i Brydain? Sut ddaethon nhw? Pryd gafodd yr un cyntaf ei dyfu ym Mhrydain? Pwy ym Mhrydain oedd yn gallu fforddio tyfu a bwyta afalau pîn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg? O ble rydych chi'n meddwl y byddai Mrs Phelps wedi cael ei afal pîn?

Allwch chi ddweud nawr pam y dygodd Walter yr afal pîn?

## Tasg 3. Walter Butt – ‘gwarth ar ei deulu’

Allwn ni ddarganfod rhywbeth arall am Walter?



11

| | Name of Street, Place, or Road, and Name or No. of House | Name and Surname of each Person who abode in the house, on the Night of the 30th March, 1851 | Relation to Head of Family | Condition | Age of Males | Age of Females | Rank, Profession, or Occupation | Where Born |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 46 | [illegible] Street | John Butt | Head | Mar | [illegible] | | Cordwainer Journeyman | [illegible] |
| | | Mary do | Wife | Mar | | [illegible] | | Bristol [illegible] |
| | | John do | Son | U | [illegible] | | Cordwainer Journeyman | do do |
| | | James do | Son | U | [illegible] | | Scholar | do do |
| | | Julia do | Daur | U | | [illegible] | [illegible] Binder | do do |
| | | Walter do | Son | | [illegible] | | Scholar | do do |
| | | Joseph do | Son | | [illegible] | | do | Glamorganshire Swansea |
| | | Emma do | Daur | | | 10 | do | do do |
| | | William do | Son | | [illegible] | | do | do do |
| | | Frederick do | do | | [illegible] | | do | do do |
| 47 | 11 [illegible] Street | David [illegible] | Head | Mar | [illegible] | | [illegible] | [illegible] |

Cofnod Cyfrifiad 1851 am y teulu Butt

Edrychwch ar gofnod Cyfrifiad 1851 ar gyfer Walter Butt a’i deulu. Sylwch ar eu cyfeiriad, faint o blant oedd ganddynt, eu swyddi a lle cawsant eu geni.

Allwch chi weld pryd y symudodd y teulu i Abertawe?

Sylwch ar y swyddi oedd gan aelodau’r teulu. Chwiliwch i weld beth roeddent yn ei wneud. Faint o bobl yn y teulu sy’n ennill cyflog?

Wrth edrych ar enwau’r teulu, efallai y gwelwch wall arall yn yr adroddiad o’r llys!

Dywedwyd bod yr afal pîn yn werth 5 swllt ond roedd rhaid i dad Walter dalu bont o 10 swllt i sicrhau nad oedd Walter yn fachgen drwg eto.

Pe bai’r llys wedi bod yn fwy llym ar Walter, efallai nad yng nghofnod Cyfrifiad ei deulu y byddai ond yng nghofnod Carchar Abertawe!

Mewn grwpiau, datblygwch ddrama fer am wythnos ym mywyd Walter. Gallech gynnwys y rhan am ddwyn yr afal pîn ar ddydd Sul, yr achos llys a’r teulu gyda’i gilydd o gwmpas y bwrdd bwyd yn llenwi ffurflen y Cyfrifiad ac yn sôn am Walter yn dwyn gwarth ar y teulu. Meddyliwch am y props a’r gwisgoedd.

Efallai yr hoffech dynnu lluniau neu ffilmio’r dramâu a’u rhoi ar wefan Casgliad y Werin Cymru neu ddefnyddio ffotograffau i greu stori ar gyfer Casgliad y Werin Cymru.

[Cofnod Cyfrifiad John a Mary Butt]